

Pennaeth: Mrs Eirian Owain B.Add.
Head: Mrs Eirian Owain B.Ed.

Ysgol Bro Dyfrdwy

Cynwyd
Corwen
Sir Ddinbych
LL21 0LG

☎ 01490 412500



ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk



Chwefror 26ain, 2018

01/03/18 - Byddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi yn yr ysgol ddydd Iau yma. Cofiwch caiff y plant ddod i'r ysgol yn gwisgo dillad Cymreig traddodiadol neu grys pêl-droed/rygbi Cymru neu unrhyw ddilledyn coch, gwyn a gwyrdd. Dyma restr o weithgareddau'r diwrnod (os bydd y tywydd yn caniatu)-

- Gorymdaith gŵyl Ddewi o amgylch y pentref.
- Canu Hen Wlad fy Nhadau wrth giat yr ysgol.
- Ras cacen gri! Ceisio cwblhau cwrs rhwystrau gan geisio cadw cacen gri ar y blat!
- Eisteddfod yr ysgol

Yn ogystal mae'r Eco Bwyllgor wedi trefnu orig o gasglu sbwriel ben bore ar 01/03/18. Bydd plant y Cyfnod Sylfaen yn casglu sbwriel o amgylch yr ysgol a phlant Cyfnod Allweddol 2 yn casglu sbwriel o amgylch y parc a'r pentref.

DIWRNOD Y LLYFR - Rydym am ddathlu Diwrnod y Llyfr ar ddydd Gwener 02/03/18. Caiff plant Cyfnod Allweddol 2 y cyfle i ymweld â Llyfrgell Corwen yn eu tro yn ystod y bore.

Bydd plant Blwyddyn 5 a 6 yn adrodd stori i grwpiau o blant y Cyfnod Sylfaen yn ystod y pŵn.

Gofynnwn i bob un plentyn ddod a'i hoff lyfr i'r ysgol a thrafod mewn grwpiau bach beth ydy cynnwys y stori yn fras a'r rheswm pan ei fod wedi dewis y llyfr arbennig yna.

PRIODAS Y CYFNOD SYLFAEN - Cynhelir priodas y Cyfnod Sylfaen am 10 o'r gloch ar 06/03/18. Mae croeso cynnes i chi rieni plant y Cyfnod Sylfaen ymuno â ni yn y gwasanaeth yn Eglwys Sant Ioan.

GWASANAETH TEULUOL - Bydd Blwyddyn 5 a 6 yn cyflwyno gwasanaeth teuluol arbennig i'w teulu a ffrindiau bore Mercher 07/03/18 am 9 o'r gloch.

CLWB CEIDIOG - Gwahoddwyd plant yr ysgol i ddathlu dydd Gŵyl Dewi efo aelodau Clwb Ceidiog, Llandrillo ar 07/03/18. Felly bydd plant Blwyddyn 5 a 6 yn diddori'r aelodau drwy

Pennaeth: Mrs Eirian Owain B.Add.
Head: Mrs Eirian Owain B.Ed.

Ysgol Bro Dyfrdwy

Cynwyd
Corwen
Sir Ddinbych
LL21 0LG

☎ 01490 412500



ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk



cyflwyno eu gwasanaeth arbennig ar Fasnach Deg i aelodau'r Clwb ac mi fydd y Parti Llefaru a Pharti Unsain yn cymeryd rhan yn ogystal a rhai unigolion yn canu a llefaru.

NOSON AGORED - Gair i'ch atgoffa y cynhelir Nosweithiau Agored fel a ganlyn

- Nos Lun, Mawrth 12fed a Nos Fawrth, Mawrth 13eg - dosbarth Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1,2,3, a 4
- Nos Fercher, Mawrth 14eg - Blwyddyn 5 a 6 .

Bydd taflen amser ar gael yng nghyntedd yr ysgol i chi ddewis amser cyfleus i ddod am sgwrs efo'r athro dosbarth pertnasol. Cyflwynir Adroddiad Canol y Flwyddyn i chi ar gynnydd ac ymddygiad eich plentyn.

SÊR YR WYTHNOS - Cyflwynwyd tystysgrif i'r canlynol yr wythnos diwaethaf am ddyfalbarhau ar dasg.

- Blwyddyn 1 - Eben Pritchard a Betsan ap Gwynfor
- Blwyddyn 2 - Tommy Snow Jones, Elin Dylan ac Osian Jones
- Blwyddyn 3 a 4 - Lyla Davies
- Blwyddyn 5 a 6 - David Gregory

Yr wythnos hon fe fyddwn yn chwilio am blant sy'n serennu wrth gyd- weithio ac eraill.

COGURDD - Diolch yn fawr iawn i'r 10 disgybl brwdfrydig fu'n brysur yn coginio ar gyfer y gystadlaeth Cogurdd yn yr ysgol y bore ma. Diolch hefyd i Anti Nia fu'n brysur yn blasu 10 Salad Asiadd Creisionllyd wrth iddi feirniadu'r bwyd. Cafodd ei phlesio'n arw iawn gyda ymdrech pawb.

Ond heddiw dyma'r buddugwyr sef

1af - Erin Fay Parry

2ail - Mari Hughes

3ydd - Phoebe Wakefield

Llongyfarchiadau mawr i'r dair ohonynt a diolch i bawb arall am gystadlu.



Pennaeth: Mrs Eirian Owain B.Add.
Head: Mrs Eirian Owain B.Ed.

Ysgol Bro Dyfrdwy

Cynwyd
Corwen
Sir Ddinbych
LL21 0LG

☎ 01490 412500

✉ ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk



EISTEDDFOD CYLCH YR URDD - Cynhelir yr Eisteddfod Gylch yn ysgol Dinas Bran, Llangollen dydd Sadwrn yma 03/03/18. Fe ddylech dderbyn amseroedd y rhagbrofion drwy law heno.

CLWB YR URDD - nos yfory tan 4.30 y.p

CRhA - Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Bwyllgor y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am yrodd anrhydeddus o £1500 tuag at brynu mwy o I Pads i'r Cyfnod Sylfaen.

BINGO'R PASG - Nodwch nos Iau , Mawrth 15fed yn eich dyddiaduron. Cynhelir Bingo Pasg yr ysgol y noson hon. Unwaith eto eleni gofynnwn yn garedig iawn i bob teulu gyfrannu âŵ pasg tuag at y gwobrau ar y noson.